# CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2021

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Robert Llewelyn Jones (Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Vaughan Hughes, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Dylan Rees, Richard Griffiths, Dafydd Roberts, J Arwel Roberts |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorydd John Griffith |

---

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Dim.

**2. PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL – ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT AR GYFER 2022/23**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW), sy'n nodi'r lwfansau sy'n daladwy i Aelodau etholedig ac Aelodau cyfetholedig â hawliau pleidleisio.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd nad yw lwfansau'r IRP wedi cynyddu yn unol â chyflogau ar draws Cymru. Mae'r IRP felly yn cynnig cynyddu taliadau holl Aelodau ac Aelodau cyfetholedig pob Cyngor.

Cytunodd y Pwyllgor fod angen i lwfansau Aelodau gynyddu er mwyn gallu denu trawstoriad ehangach o'r gymuned, yn enwedig pobl ifanc a merched, i sefyll yn yr etholiad.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod y cynigion yn cael eu gosod yn genedlaethol ac y byddant yn weithredol yn dilyn etholiadau Mai 2022.

Nodwyd, pan fydd cynghorau newydd yn cael eu hethol bydd rhai o benderfyniadau'r Panel yn effeithiol ar gyfer tymor newydd y Cyngor. Bydd gan yr Adroddiad Blynyddol 2022-23 ddau ddyddiad gweithredu, sef:-

- Bydd yr holl benderfyniadau yn Adroddiad Blynyddol 2021/22 yn parhau i fod yn weithredol am y cyfnod rhwng 1 Ebrill ac 8 Mai 2022.
- Bydd y penderfyniadau yn Adroddiad Blynyddol 2022/23 yn weithredol o 9 Mai 2022.

Mae crynodeb o'r newidiadau arfaethedig wedi eu nodi isod:-

- Cynyddu cyflog sylfaenol aelodau etholedig o £14,368 i £16,800.
- Nifer yr uwch gyflogau i aros fel ag y ma ear 16, yn cynnwys y cyflogau dinesig.
- Bydd nifer yr Aelodau etholedig ar Ynys Môn yn cynyddu i 35.
- Cynyddu'r uwch gyflogau a'r cyflogau dinesig fel yr amlinellir isod:-

| **Uwch Gyflogau a Chyflogau Dinesig 2022/23** (gan gynnwys y cyflog sylfaenol) | | **1 Ebrill – 8 Mai 2022** | **O 9 Mai 2022** |
|---|---|---|---|
| **Uwch Gyflogau** | | | |
| Band 1 | Arweinydd | £44,921 | £53,550 |
| | Dirprwy Arweinydd | £31,783 | £37,485 |
| Band 2 | Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith | £27,741 | £32,130 |
| Band 3 | Cadeiryddion Pwyllgorau (os y'u telir) | £23,161 | £25,593 |
| Band 4 | Arweinydd y grŵp gwrthbleidiol mwyaf | £23,161 | £25,593 |
| Band 5 | Arweinwyr grŵpiau gwleidyddol arall | £18,108 | £20,540 |
| **Cyflogau Dinesig** (os y'u telir) | | | |
| Band 3 | Pennaeth Dinesig | £23,161 | £25,593 |
| Band 5 | Dirprwy Bennaeth Dinesig | £18,108 | £25,540 |

Bydd y cynnydd arfaethedig mewn lwfansau a ragwelir gan yr IRP mewn perthynas ag Ynys Môn tua £180,000 yn flynyddol o Mai 2022.

**PENDERFYNWYD derbyn y cynigion drafft yn adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2022/23.**

Bu'r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, ddiolch i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd am ei waith ar y Pwyllgor a dymunodd yn dda iddo ar ei ymddeoliad.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.40 am

**CYNGHORYDD ROBERT LL JONES**
**CADEIRYDD**